

## **MAE PROSIECT celfyddydau creadigol a sefydlwyd i helpu pobl ddigartref wedi cael hwb, diolch i ddigwyddiad gan y cyngor tref.**

Mae'r elusen celfyddydau TAPE Community Music & Film yn gweithio gyda thîm o Ganolfan Dewi Sant y Rhyl i alluogi i bobl ddigartref ddatblygu talentau a sgiliau creadigol newydd mewn gwneud ffilmiau.

Cefnogwyd ei brosiect Street Homeless Creative gan Cyngor Tref y Rhyl trwy'r digwyddiad tref diweddaraf.

Cynhaliodd y cyngor ddau ddangosiad ffilm am ddim gyda'r plant yn bwyta popgorn yn ystod The Muppet Christmas Carol, gyda ffilm Bing Crosby, White Christmas, yn cael ei dangos wedyn.

Rhoddwyd y tocynnau am ddim, gyda'r cyngor yn eu prynu ar ran trigolion. Caiff yr elw o'r tocynnau ei ddefnyddio gan TAPE i gefnogi cyfnod nesaf eu prosiect, sydd wedi gweld pobl ddigartref yn creu ffilm arbennig yn cofnodi eu bywydau.

Meddai Maer y Rhyl, y Cyngorydd Alan James: "I lawer, mae'r Nadolig yn amser o hapusrwydd a rhoi anrhegion. I eraill, yn enwedig y sawl sy'n cael eu hunain yn ddigartref, gall fod yn achlysur anodd.

"Ond nid problem y Nadolig yw digartrefedd – mae'n broblem trwy gydol y flwyddyn ac mae gennym gyfrifoldeb tuag at bawb sy'n byw yn y Rhyl. Y llynedd gwelsom y gwahaniaeth y gwnaeth y prosiect creadigol i'r digartref ac roeddem wedi ein hysbrydoli gan y ffilm a grëwyd ganddynt.

"Trwy gynnal ein ffilmiau am ddim, rydym nid yn unig yn rhoi amser braf i bobl y Rhyl, ond rydym hefyd yn medru cynorthwyo pobl llai ffodus, gan gefnogi prosiect sy'n eu galluogi i ddysgu sgiliau newydd ac adrodd eu hanes, gan feithrin teimlad o ddealltwriaeth a chynnig cymorth cymunedol."

Dangoswyd gwaith y prosiect i'r sawl a aeth i wyllo'r ffilmiau cyn dangos White Christmas.

Meddai Neil Dunsire o TAPE Community Music & Film: "Rydym yn gobeithio bod y prosiect hwn wedi gwneud gwahaniaeth go iawn i bobl sy'n canfod eu hunain yn byw ar y stryd ac i'r gymuned ehangach.

"Bwriad y grŵp yw y bydd y ffilm yn hyrwyddo gwell dealltwriaeth o sefyllfa pobl ddigartref yn y rhanbarth.

"Mae'n rhy hawdd anghofio bod gan bob person stori a sgiliau nad ydym o reidrwydd yn meddwl amdanynt o ddydd i ddydd wrth weld pobl yn byw ar y stryd.



“Rydym yn falch bod sgrinio’r ffilm gan y cyngor yn cael ei ddefnyddio fel llwyfan i ddatblygu’r prosiect hwn ymhellach a helpu’r sawl sydd ei angen fwyaf.”

